Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

30 Hydref 2008

Anghenion disgyblion ddim yn cael eu diwallu'n dda mewn ysgolion arbennig annibynnol â darpariaeth breswyl 52 wythnos gysylltiedig

Heddiw, cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn, sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, ar y modd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynllunio ac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion arbennig cymhleth mewn ysgolion arbennig annibynnol â darpariaeth breswyl 52 wythnos gysylltiedig.

Canfu arolygwyr nad yw'r ystod gymhleth iawn o anghenion arbennig sydd gan y disgyblion hyn yn cael eu diwallu'n dda yn y lleoliadau hyn, i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n rhy aml ar ddod o hyd i ysgol sy'n gallu diwallu anghenion mwyaf heriol y disgyblion, sydd yn aml yn anghenion ymddygiad, yn hytrach na'n asesu holl anghenion cymhleth disgyblion a gwneud yn siwr y gall yr ysgol ddiwallu'r rhain i gyd.

Mae rhyw 30 o sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg arbennig breswyl gyda darpariaeth gofal 52 wythnos gysylltiedig, yn darparu ar gyfer rhyw 150 o ddisgyblion o bob cwr o'r DU ar unrhyw un adeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn blant sy'n derbyn gofal ac y mae ganddynt anghenion arbennig cymhleth, fel anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad eithafol, a/neu anawsterau eraill fel anhwylder y sbectrwm awtistig.

Gall cost flynyddol darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig cymhleth mewn ysgolion arbennig annibynnol, gyda darpariaeth breswyl 52 wythnos gysylltiedig, amrywio o £40,000 hyd at £500,000 y disgybl yn yr achosion mwyaf eithafol. Priodolir y rhan sylweddol o'r gost hon i'r agwedd breswyl ar y ddarpariaeth 52 wythnos. Yn 2007, gwariodd awdurdodau lleol yng

Nghymru ryw £16 miliwn ar y math hwn o ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau sylweddol i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn.

Canfu arolygwyr Estyn nad yw tua hanner yr awdurdodau lleol wedi gallu cytuno â gwasanaethau cyngor eraill a phartneriaid, ar eu blaenoriaethau cyffredin na'r ffordd orau i weithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. O ganlyniad, nid yw trefniadau gweithio ar y cyd, gan gynnwys cydgyfrannu cyllidebau ac adnoddau eraill rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd, wedi gwneud cynnydd digon da.

Mae Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn dweud, "Mae mynd i'r afael ag anghenion arbennig cymhleth o'r natur hon yn gofyn yn aml i ysgolion ac awdurdodau lleol weithio'n effeithiol ar y cyd â phartneriaid o asiantaethau eraill, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol plant, gwasanaethau cymorth ieuenctid, gwasanaethau iechyd a'r heddlu, yn enwedig pan fydd problemau ymddygiad y disgyblion yn deillio o amgylchiadau yn y cartref. Dylai partneriaid lleol fod yn ceisio lleihau'r angen am leoliadau preswyl trwy gyflwyno cymorth holistaidd ac ymyrraeth, gyda chymorth ac arweiniad i rieni ar y cyd â chymorth yn yr ysgol sy'n helpu gwella dysgu ac ymddygiad disgyblion. Pan fydd angen iddynt wneud lleoliadau preswyl 52 wythnos ar gyfer addysg a gofal, dylai partneriaid lleol barhau i gyfranogi'n llawn i sicrhau y gall y lleoliad a ddewiswyd ddiwallu anghenion yr unigolyn ifanc yn llawn, ac i gefnogi a monitro cynnydd wedi hynny."

Mae methiant llawer o awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd i gynllunio'n strategol a darparu digon o wasanaethau lleol hyblyg, gan gynnwys cymorth teulu, wedi arwain at ormod o ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal eu hunain i gael addysg a gofal.

Canfu arolygwyr hefyd fod rhy ychydig o enghreifftiau o ddata asesu disgyblion da a diweddar mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Felly, mae dysgu disgyblion yn cael ei rwystro'n aml gan addysgu nad yw'n cael ei gynllunio i ddiwallu'u hanghenion unigol. Gall hyn ynddo'i hun arwain at broblemau ymddygiad pellach wrth i ddisgyblion deimlo'n rhwystredig ynglŷn â'u hanawsterau wrth ddysgu. Yn yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol, mae swyddogion yn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr ac unigol am addysg a gofal yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol cyn bod disgyblion yn cael eu lleoli yno.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Comisiynwyd adroddiad Estyn, ‘Lleoliadau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig preswyl annibynnol’, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae ‘Cod Ymarfer’ 2002 ar anghenion addysgol arbennig yn dweud bod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig os oes ganddo neu ganddi anhawster dysgu sy’n galw am addysg arbennig ar ei gyfer neu ar ei chyfer.

Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Defnyddiwn y term ADY mewn perthynas â dysgwyr y mae ganddynt anghenion heblaw’r rheiny sydd gan y rhan fwyaf o’u ffrindiau dosbarth, am nifer o resymau gwahanol, gan gynnwys dysgwyr:

- sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel y’u diffinnir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002);
- sy’n anabl, fel y’u diffinnir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995;
- sydd ag anghenion meddygol;
- sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad;
- sy’n fwy galluog a dawnus na’r rhan fwyaf o’u ffrindiau dosbarth; ac
- sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464